Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Addasiadau a Diddymiadau a Dirymiadau Canlyniadol) 2018** |
| **DYDDIAD** | **3 Rhagfyr 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**Rheoliadau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Addasiadau a Diddymiadau a Dirymiadau Canlyniadol) 2018**

**Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio**

- Deddf Dehongli 1978
- Deddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (Yr Alban) 2010
- Deddf Dehongli (Gogledd Iwerddon) 1954

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Ni fydd yr OS hwn yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad nac ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Diben y diwygiadau**
Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n codi wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a gwneud darpariaeth mewn perthynas â dehongli cyfraith yr UE a therminoleg yn ymwneud ag ymadael â'r UE. Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-european-union-withdrawal-act-2018-consequential-modifications-and-repeals-and-revocations-eu-exit-regulations-2018

**Diben y diwygiadau**
Cafodd elfennau datganoledig yr OS hwn eu gwneud o dan adran 23 o Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018, sy'n bŵer i Weinidogion y Goron nad oes modd i Weinidogion Cymru ei arfer. Nid yw o fewn y Cytundeb Rhynglywodraethol ac felly nid oedd gofyn cael cydsyniad Gweinidogion Cymru. Ysgrifennodd yr Is-weinidog Gwladol Seneddol yn yr Adran dros Ymadael â'r UE at Weinidogion Cymru yn rhoi gwybod iddynt am yr OS hwn. Er nad oedd cydsyniad ffurfiol yn ofynnol, mae Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau eu bod yn fodlon i'r OS hwn fod yn gymwys ar gyfer Cymru. Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru, ac ar ei rhan, am resymau'n ymwneud ag

effeithlonrwydd a hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae’r diwygiadau wedi’u hystyried yn llawn ac nid oes gwahaniaeth o ran y polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau’n weithredol ar ôl i’r DU ymadael â’r UE. Mae hyn yn unol â’r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd ym mis Mai.